# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

**RHAN 2**

Y GWEITHLU ADDYSG

VALID FROM 01/04/2015

*Darpariaeth drosiannol a darfodol*

## 39 Trosglwyddo cofrestriadau personau sydd eisoes wedi eu cofrestru

(1) Pan, yn union cyn y dyddiad y daw'r adran hon i rym—

(a) fo person wedi ei gofrestru yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 3 o Ddeddf 1998, a

(b) fo'r person wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol at ddibenion adran 19 o'r Ddeddf honno,

tybir bod y person wedi ei gofrestru yn y categori athro neu athrawes ysgol ar y dyddiad hwnnw ac ar ôl hynny yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 9 o'r Ddeddf hon.

(2) Pan, yn union cyn y dyddiad y daw'r adran hon i rym—

(a) fo person wedi ei gofrestru yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 3 o Ddeddf 1998, ond

(b) na fo'r person wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol at ddibenion adran 19 o'r Ddeddf honno,

tybir bod y person wedi ei gofrestru ar sail dros dro yn y categori athro neu athrawes ysgol ar y dyddiad hwnnw ac ar ôl hynny yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 9.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 50**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 14/07/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Darpariaeth drosiannol a darfodol. (See end of Document for details)*

## 40 Materion darfodol sy'n ymwneud â chymhwystra i gofrestru

At ddibenion adran 10(3)—

(a) mae person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan adran 142(1)(a) o Ddeddf 2002 (gwahardd rhag addysgu etc.) yn parhau yn anghymwys i'w gofrestru, a

(b) mae cyfeiriad at orchymyn disgyblu o dan y Ddeddf hon yn cynnwys cyfeiriad at orchymyn disgyblu cyfatebol a wnaed o dan Ddeddf 1998.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 40 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 50**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 14/07/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Darpariaeth drosiannol a darfodol.